## RHAN 3 – CYFRIFOLDEB AM SWYDDOGAETHAU

## Adran 4D - Dirprwyaethau i Reolwyr Gweithredol

---

**NODER: rhaid i'r dirprwyaethau canlynol gael eu darllen ar y cyd ag Isadran 4A sy'n nodi'r sail, y cyfyngiadau a'r darpariaethau pellach cyffredinol sy'n berthnasol i'r Cynllun Dirprwyo hwn.**

**AR YR AMOD bod y penderfyniad:**

a) **o fewn y gyllideb;**
b) **yn unol â fframwaith polisi'r Cyngor;**
c) **yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Thir a Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor;**
d) **yn unol â Chynllun Busnes y Gwasanaeth; ac**
e) **ar yr amod nad yw'n fater wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer y Cyngor Llawn, Pwyllgor y Cyngor, y Cabinet, Swyddog Statudol, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Prif Swyddogion neu Benaethiaid Gwasanaeth.**

**Bydd caniatâd gan bob Rheolwr Gweithredol i:-**

**1.1 Wneud unrhyw benderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw fater o fewn eu maes cyfrifoldeb ('Dirprwyaeth Gyffredinol'),**

**1.2 Cymryd camau priodol angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon, yn gydradd ac effeithiol.**

**1.3 Arfer y Dirprwyaethau Penodol canlynol:-**

| Cyf. | Dirprwyaeth | Math o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| **Adnoddau Dynol**<br>RhG1 | Awdurdod i reoli'r adnoddau dynol o fewn eu maes cyfrifoldeb fel y nodir yn y polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cymeradwy. | Ffurflen AD berthnasol |
| **Caffael**<br>RhG2 | Caffael gwaith, nwyddau, gwasanaethau a/neu gyflenwadau a rheoli pob agwedd ar y contract (ac eithrio mewn perthynas ag amrywiadau – gweler RhG3; trefniadau fframwaith – gweler FS20; neu lle bo'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn darparu i'r gwrthwyneb) lle nad yw gwerth amcangyfrifiedig y contract yn fwy na £250,000; ac ym mhob achos, yn amodol ar gydymffurfiaeth â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, Rheolau Gweithdrefnau Contractau a'r Fframwaith Polisi a Chyllideb.<br><br>**Cymhwyster: Ni cheir dirprwyo hyn ymhellach ar gyfer caffaeliadau gwerth £10,000 neu fwy.** | Ffurflenni Cyn Tendro a Dyfarnu Contract |
| RhG3 | Awdurdodi, cyflwyno neu gymeradwyo amrywiadau yn unol â'r gwerthoedd, fel y'i nodir yn y Rheolau Gweithdrefnau Contractau. | |
| **Arall**<br>RhG4 | Yn unol ag unrhyw bolisi neu strategaeth a gymeradwyir gan y Cabinet i ystyried a phennu ceisiadau am gymorth ariannol neu gymorth mewn nwyddau a chymeradwyo neu wrthod ceisiadau nad yw eu gwerth yn fwy na £50,000.<br><br>**Cymhwyster: Ni cheir dirprwyo'r maes hwn ymhellach.** | Ffurflen Gais Grant |